# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2366A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 6

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 6

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 9

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam cyntaf Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2023, i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fe ataliodd Llywodraeth Cymru'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Fe nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd baratoi cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio o'r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein hasesiad strwythuredig yn 2020 fe wnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21.

# Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol yn effeithiol, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac adrodd ar hynny.**

7 Fe wnaeth Cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 (Cynllun Chwarteri 3-4) fodloni canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac fe'i cyflwynwyd o fewn y ffrâm amser ofynnol yn dilyn ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

8 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn dilyn ymlaen o'r ddau gynllun chwarterol blaenorol ac fe'i tanategir gan fodelu cadarn a data gweithredol, ariannol ac o ran y gweithlu sydd o ansawdd da. Fe sicrhaodd y Bwrdd Iechyd ymgysylltu effeithiol â Byrddau Clinigol, gwasanaethau galluogi (megis cyllid), a phartneriaid allanol perthnasol fel rhan o'r broses gynllunio. Mae trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn ddigon hyblyg ac ystwyth i ymateb i amgylchiadau newidiol.

9 Er bod gweithgarwch i adrodd wrth y Bwrdd ar feysydd allweddol yng Nghynllun Chwarteri 3-4 wedi cynyddu, mae angen o hyd i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau cyffredinol ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir y cynllun gweithredol ac adrodd ar hynny.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2021 – cam un.

# Adroddiad manwl

## Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21

11 Fe roddodd ein gwaith ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar (Cynllun Chwarteri 3-4) 2020-21 y Bwrdd Iechyd yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

12 Canfuom fod **Cynllun Chwarteri 3-4 wedi bodloni canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac wedi cael ei gyflwyno o fewn y ffrâm amser ofynnol yn dilyn ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol a'r Cyngor Iechyd Cymuned.**

13 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri 3-4 a'r Set Ddata Sylfaenol ('SDdS') a oedd yn cyd-fynd ag ef i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Hydref 2020. Fe'i rhannwyd gydag Aelodau Annibynnol yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar 29 Hydref 2020 ac fe'i cymeradwywyd yn ôl-weithredol gan y Bwrdd ar 26 Tachwedd 2020.

14 Fe sicrhaodd y Bwrdd Iechyd fwy o ymwneud gan Aelodau Annibynnol â datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 na'r ddau gynllun chwarterol blaenorol. Er enghraifft, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd Sesiynau Datblygu'r Bwrdd i roi'r cyfle i Aelodau Annibynnol drafod a llunio Cynllun Chwarteri 3-4 cyn ei gyflwyno. Fe barhaodd y Bwrdd Iechyd hefyd i gryfhau'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid fel rhan o ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4. Er enghraifft, rhannwyd y cynllun drafft gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer sylwadau, a darparwyd diweddariadau rheolaidd ar gyfer y Fforwm Partneriaeth Lleol a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

15 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn fanwl, yn gynhwysfawr, ac yn ateb gofynion y fframwaith gweithredu a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel oedd yn wir gyda'r cynlluniau chwarterol blaenorol, nid yw'n cynnwys crynodeb clir o gamau gweithredu allweddol, graddfeydd amser, a mesurau y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd ac adrodd arno. Er bod rhai bylchau yn y SDdS, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu esboniad ar gyfer y data sy'n eisiau. Er enghraifft, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn dal y data ar gyfer y tab 'Rhaglenni Sgrinio' gan bod gwasanaethau sgrinio'n cael eu darparu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

16 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i ategu ei ymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol, ac adfer gwasanaethau mwy rheolaidd.

17 Canfuom fod **trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ac yn ddigon hyblyg ac ystwyth i ymateb i amgylchiadau newidiol.**

18 Mae cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21, a ddatblygwyd yn chwarter 1 ac a fireiniwyd yn chwarter 2, yn disgrifio'i ymateb i'r pandemig trwy gyfres o gamau a danategir gan ddull cyfarparu'n raddol (**Arddangosyn 1**). Felly mae Cynllun Chwarteri 3-4, sy'n canolbwyntio ar gamau 4 a 5, yn ddatblygiad amlwg o'r

cynlluniau chwarterol blaenorol, a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni camau 1 i 3. Wrth ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fyfyrio a gweithredu ar adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gynlluniau chwarterol blaenorol, megis darparu mwy o eglurder ynghylch camau lliniaru ar gyfer y risgiau allweddol a oedd wedi'u nodi. Fodd bynnag, nid yw Cynllun Chwarteri 3-4 yn darparu trosolwg o berfformiad y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni'r cynlluniau chwarterol blaenorol. Nid yw ychwaith yn cynnwys trosolwg o'r gwersi allweddol a ganfuwyd gan y Bwrdd Iechyd fel rhan o'i raglen ehangach i werthuso ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd yn ystod y pandemig.

**Arddangosyn 1: dull graddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer ymateb i COVID-19**

| | |
|---|---|
| Cam 1 | Addasu capasiti at ddibenion gwahanol a rhannu'n barthau o fewn ysbytai'r BIP |
| Cam 2 | Comisiynu seilwaith newydd a chapasiti ychwanegol o fewn cyfleusterau'r BIP |
| Cam 3 | Comisiynu capasiti ymchwydd byrdymor y tu allan i Gyfleusterau'r BIP |
| Cam 4 | Ymateb parhaus i'r pandemig |
| Cam 5 | Adnewyddu systemau |

19 Fe arhosodd dull cynllunio chwarterol y Bwrdd Iechyd yn ddigyfnewid. Cafodd y broses ei chydlynu gan y Tîm Cynllunio Strategol gyda mewnbwn cryf gan y Byrddau Clinigol a gwasanaethau galluogi gan gynnwys datblygu'r gweithlu a'r sefydliad, a chyllid. Mae'r Pennaeth Cynllunio Strategol yn cwrdd â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad, a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol bob pythefnos i hwyluso cydweithio ac integreiddio. Dywedodd pob un o'r pedwar uwch reolwr fod y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Mae'n eu galluogi i rannu gwybodaeth amserol a sicrhau ymateb cyson a chyflym i unrhyw newidiadau sylweddol i amgylchedd gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

20 Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Datblygu a Chyflawni Strategaeth (GDaChS) hefyd, sy'n fforwm uwch reolwyr i oruchwylio datblygiad cynlluniau busnes strategol a

monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau. Fe barhaodd y Bwrdd Iechyd i wneud defnydd effeithiol o'r GDaChS i oruchwylio'r broses o baratoi Cynllun Chwarteri 3-4 a darparu swyddogaeth graffu a chyngor ffurfiol ar faterion cynllunio a oedd â goblygiadau ar draws Byrddau Clinigol a swyddogaethau corfforaethol.

21 Mae Byrddau Clinigol wedi parhau i chwarae rhan weithredol yn y broses gynllunio. Cafodd y broses ei symleiddio i alluogi Byrddau Clinigol i ymgysylltu'n briodol â chynllunio heb i hynny amharu ar eu gallu i ymateb yn effeithiol i'r pandemig. Cyflwynwyd templed wedi'i symleiddio a'i boblogi ymlaen llaw, a hwnnw'n nodi'r tybiaethau cynllunio a'r paramedrau yr oedd disgwyl iddynt weithredu oddi mewn iddynt yn ystod y cyfnod. Gofynnwyd i Fyrddau Clinigol adolygu a diweddaru'r templedi yn ôl yr angen, a'r wybodaeth a ddarparwyd oedd y sail i Gynllun Chwarteri 3-4. Mae Byrddau Clinigol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r dull symlach hwn.

22 Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ar y cyfan, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu â'i bartneriaid fel rhan o gynllunio'r broses. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi dull y Bwrdd Iechyd o weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni agweddau ar y cynllun, megis Profi, Olrhain, Diogelu. Mae'r Cynllun Diogelu yn y Gaeaf, a ddatblygwyd trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn darparu mwy o fanylion ynghylch dull y Cyngor o fynd ar drywydd cynllunio a chyflawni cydweithredol.

23 Mae Cynllun Chwarteri 3-4, fel y cynlluniau chwarterol blaenorol, wedi cael ei oleuo gan fodelu cadarn a data gweithredol, ariannol ac o ran y gweithlu sydd o ansawdd da. Fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd dri senario eang, lefel uchel ar gyfer chwarteri 3 a 4 i roi cymorth iddo gynllunio ac ymateb: senarios 'achos gwaethaf', 'achos gorau' ac achos 'canolog' COVID-19. Fe wnaed gwaith modelu manwl i ddeall effaith debygol y galw a ragwelid ym mhob senario ar ystod o ffactorau, megis capasiti gwelyau. Cafodd y senario 'canolog' ei fabwysiadu fel pwynt triongli'r Bwrdd Iechyd at ddiben ysgrifennu Cynllun Chwarteri 3-4 yng nghyd-destun y pedwar niwed a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 a blaenoriaethu clinigol.

24 Mae dull cynllunio a model gweithredu'r Bwrdd Iechyd wedi aros yn hyblyg, yn ystwyth ac yn ddeinamig trwy gydol y pandemig. Mae dull cyfarparu'n raddol y Bwrdd Iechyd (gweler **paragraff 18**) yn adlewyrchu'r angen i'w fodel gweithredu fod yn hyblyg ac ymateb yn wahanol gan ddibynnu ar nifer yr achosion o COVID-19 a'r effaith ganlyniadol ar ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu o fewn cylchoedd cynllunio chwe wythnos dreigl, a oleuir gan ddata a modelu, sy'n ei alluogi i 'gyfarparu'r' ddarpariaeth o ran gwasanaethau yn briodol i lefelau newidiol o alw.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gadw ffocws ar ei strategaeth 10 mlynedd – Llunio Ein Lles yn y Dyfodol. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol wedi cwblhau adolygiad canol strategaeth ac mae yn y broses o nodi'r gwaith y mae ei angen i gyrraedd y cerrig milltir allweddol nesaf trwy Gynllun Blynyddol 2021-22 a rhaglenni strategol eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bwrw ymlaen â gwaith ar raglenni strategol yn ystod y pandemig, megis Llunio Ein Gwasanaethau Clinigol

yn y Dyfodol. Fodd bynnag, ychydig iawn o aliniad a fu rhwng cynlluniau strategol tymor hwy a chynlluniau gweithredol chwarterol yn ystod 2020-21. Y rheswm dros hyn yw bod y Bwrdd Iechyd, wrth ddatblygu'r cynlluniau gweithredol chwarterol, wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar ateb gofynion fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd Cynllun Blynyddol 2021-22 yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i fwrw ymlaen â blaenoriaethau tymor canolig a thymor hwy'r Bwrdd Iechyd a rhoi'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig ar waith.

## Trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

26 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Chwarteri 3-4 ac yr adroddir ar hynny.

27 Canfuom fod **gweithgarwch i adrodd wrth y Bwrdd ar feysydd allweddol yng Nghynllun Chwarteri 3-4 wedi cynyddu, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir y cynllun gweithredol yn gyffredinol ac adrodd ar hynny.**

28 Cyflwynir adroddiadau mynych i'r Bwrdd ar feysydd allweddol yng Nghynllun Chwarteri 3-4 trwy'r Adroddiad misol i roi Diweddariad ar y Coronafeirws. Fodd bynnag, disgrifiad cyffredinol o weithgarwch y mae'r diweddariadau hyn yn ei roi yn hytrach na diweddariad ar gynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Chwarteri 3-4. Mae adroddiadau ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i berfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol wedi parhau i gael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Gweithredol ac i'r Bwrdd a'i bwyllgorau perthnasol yn fynych.

29 Er bod y trefniadau adrodd hyn yn effeithiol ar y cyfan, ni fu unrhyw fonitro nac adrodd ar berfformiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni Cynllun Chwarteri 3-4. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r diffyg crynodeb clir o gamau gweithredu allweddol, graddfeydd amser, a mesurau y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd ac adrodd arno. O ganlyniad, cyfyngedig fu'r gweithgarwch gan y Bwrdd a'i bwyllgorau i graffu ar gyflawni a rhoi sicrwydd ynghylch cyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 yn ei gyfanrwydd. Felly yr oedd hi yn ystod chwarteri 1 a 2 hefyd fel a amlygwyd yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2020.

30 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn gwella'i drefniadau monitro ac adrodd. Mae datblygiadau arfaethedig yn cynnwys cyflwyno Adroddiad Sicrwydd Integredig ar gyfer y Bwrdd, a Dangosfwrdd Strategaeth a Chyflawni a fydd yn galluogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i fonitro perfformiad, craffu arno a'i herio mewn perthynas â chyflawni cynlluniau a strategaethau'r Bwrdd Iechyd. Ceir cynlluniau hefyd i adolygu'r trefniadau monitro ac adrodd mewn perthynas â chyflawni cynlluniau gweithredol mewn cyrff iechyd eraill, gyda golwg ar adnabod arfer cadarnhaol a allai o bosibl gael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.